Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Coedwig Crychan Forest

# Fferm Cefn Farm




## Croeso i Goedwig Crychan

### Un o Goedwigoedd Canolbarth Cymru

Croeso i goedwigoedd canolbarth Cymru sy'n gorwedd oddi mewn i driongl bras o Dregaron yn y gogledd, Llanfair-ym-Muallt yn y dwyrain, a Chaerfyrddin i'r gorllewin. Mae'r coedwigoedd eraill yng nghanolbarth Cymru yn cynnwys Tywi, Irfon, Cothi, Caeo a Brechfa. Mae'r coedwigoedd yn amrywio'n fawr o ran cymeriad, o goedwigoedd Sitca Tywi sy'n cynhyrchu pren, at natur donnog coedwig Brechfa, hyd at y coetiroedd bach cymysg ar hyd Afon Cothi.

Mae coedwigoedd Canolbarth Cymru yn cynnig dewis o safleoedd picnic a theithiau cerdded byrion i'ch cynorthwyo i'w mwynhau. Mae Brechfa yn adnybyddus am ei llwybrau beiciau mynydd. Gweler y map i weld ble arall y gallwch fynd a beth allwch ei wneud.

Plannodd y Comisiwn Coedwigaeth y coetiroedd hyn yn wreiddiol i gynhyrchu pren. Heddiw, fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn edrych ar eu holau er mwyn i bobl eu mwynhau ac i fywyd gwyllt fyw ynddynt, yn ogystal â pharhau i gynhyrchu coed.

## Welcome to Crychan Forest

### One of the Forests of Mid Wales

Welcome to the forests of Mid Wales which lie within a rough triangle from Tregaron in the north, Builth Wells in the east, and Carmarthen in the west. Other Mid Wales forests include Tywi, Irfon, Cothi, Caio and Brechfa. The forests vary hugely in character, from the timber producing Sitka forests of Tywi, the undulating nature of Brechfa forest, down to the small mixed woodlands along the Afon Cothi.

The forests of Mid Wales offer a range of picnic sites and short walks to help you enjoy them. Brechfa is known for its mountain bike trails. See the map to see where else you can go and what you can do.

The Forestry Commission originally planted these woodlands to produce timber. Today, however, Natural Resources Wales looks after them for people to enjoy and wildlife to live in, as well as still producing timber.


**Mae'r goedwig yn safle o ddefnydd cymysg, byddwch yn ymwybodol fod yna bosibilrwydd y dewch ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.**

**This is a mixed-use forest, please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses or vehicles at any time.**


Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018. Arolwg Ordnans 100019741.
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2018. Ordnance Survey 100019741.



www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000



Cefn Farm


Fferm Cefn Farm


Coedwig Crychan Forest

**Rhybudd:**
Mae ymarferion milwrol yn digwydd yn y goedwig yma. Gall fflerau neu fwledi heb eu ffrwydro achosi niwed difrifol os cyffyrddir â nhw.
**Warning:**
Military training takes place in this forest. Unexploded flares or blanks may cause serious injury if handled.

## O Ffermydd i Fforestydd

**Mae Coedwigoedd Crychan a Halfway yn frith o hen draciau a oedd unwaith yn cysylltu'r ffermydd a oedd yn cynnig bywoliaeth i'r bobl a oedd yn byw ac yn gweithio yma.**

Yn y 1930au, roedd y Comisiwn Coedwigaeth yn brysur yn prynu tir ar draws y DU i blannu coed arno ar ôl i'r stoc o goed leihau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd y ffermydd a'r tir, sydd bellach yn goedwig, eu prynu. Mae ychydig o'r hen adfeilion yn dal i fodoli ac efallai y dewch o hyd iddynt wrth i chi archwilio'r goedwig. Mae'r maes milwrol cyfagos, Epynt, yn dyddio yn ôl i 1940 pan oedd yr angen am ardal hyfforddi i'r milwyr yn hanfodol yn nyddiau tywyll yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r coetir bellach yn cyflenwi coed gwerthfawr ac yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt: mae'r gwalch Marthin, y bwncath a'r barcud coch yn nythu yma, ac efallai y cewch chi gipolwg ar iwrch.

Mae'r llwybrau cerdded wedi'u harwyddo o'r pedwar maes parcio ym Mrynffo, Esgair Fwyog, Fferm Cefn a Halfway. Mae'r rhain hefyd yn addas ar gyfer marchogwyr ceffylau a beicwyr. Gallwch hefyd deithio ar hyd y llwybrau hirach drwy'r goedwig. Cysylltwch â Chymdeithas Fforest Crychan am fanylion: www.crychanforest.org.uk


## From Farms to Forest

**Crychan and Halfway Forests are criss-crossed with many old tracks that linked the farms which once provided a living for the people who lived and worked here.**

In the 1930's, the Forestry Commission was busy buying land across the UK to plant trees on after timber stocks were run-down during the First World War. The farms and land here in what is now the forest were bought. A few ruined dwellings remain and you may come across them as you explore the forest. The adjacent Epynt military range dates back to 1940 when the need for a training area for troops was vital in the dark days of the Second World War.

Now the woodland provides valuable timber and is home to a wide variety of wildlife: goshawks, buzzards and red kite nest here, and you may catch a glimpse of roe deer.

Walking trails are marked from the four car parks at Brynffo, Esgair Fwyog, Cefn Farm and Halfway. These are also suitable for horse riders and cyclists. You can also ride on longer routes throughout the forest, contact the Crychan Forest Association for details: www.crychanforest.org.uk




### Llwybr Brynffo
### Brynffo Trail

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 3½m | 5.6km
Amser | Time: 2 awr | hours

**UCHAFBWYNTIAU:** Mwynhewch olygfeydd hir o fynyddoedd y Cambria i'r gogledd, cyn disgyn i ddyfryn cysgodol Cwm Crychan. Byddwch yn dilyn y llwybr wrth ymyl y nant, cyn dringo drwy'r coed, yn ôl i'r man cychwyn ger Brynffo.

**HIGHLIGHTS:** Enjoy long views of the Cambrian Mountains to the north, before dropping into the sheltered valley of Cwm Crychan. You will follow the trail beside the stream, before climbing up through the trees, back to the start at Brynffo.

### Llwybr Esgair Fwyog
### Esgair Fwyog Trail

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 4½m | 6.7km
Amser | Time: 3 awr | hours

**UCHAFBWYNTIAU:** Mwynhewch y golygfeydd sy'n ymestyn i lawr i ddyffryn Tywi cyn cyrraedd y nant ddiarffordd yng Nghwm Crychan. Chwiliwch am raeadr sy bron ynghudd, cyn i'r llwybr ddringo'n bwyllog yn ôl i'r man cychwyn ger Esgair Fwyog.

**HIGHLIGHTS:** Take in the long views down the Tywi valley before reaching the secluded stream in Cwm Crychan. Look out for an almost hidden waterfall before the trail makes the gentle climb back to where you started at Esgair Fwyog.

### Llwybr Fferm Cefn
### Cefn Farm Trail

**Cymedrol | Moderate**

Pellter | Distance: 2½m | 4.2km
Amser | Time: 1½ awr | hours

**UCHAFBWYNTIAU:** Byddwch yn pasio heibio i adfeilion Glyn Moch, hen ffermdy o'r 19eg ganrif, cyn disgyn lawr at y nant yng Nghwm Dulas. Mae traciau hawdd yn mynd â chi'n ôl i'r man cychwyn ger fferm Cefn.

**HIGHLIGHTS:** You'll pass the ruins of the old 19th century farmhouse Glyn Moch before dropping down to the stream in Cwm Dulas. Try to imagine pigs rooting about here – as Glyn Moch means 'valley of pigs'. Easy tracks return you to the start at Cefn Farm.

LAWRLWYTHWCH EIN **APIAU AM DDIM** ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

CYMRU | WALES **PlacesToGo®**
I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.
To find other great NRW places to visit in Wales.

CYMRU | WALES **PlaceTales®**
I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.
To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

| | |
|---|---|
| parcio / parking | parcio hygyrch / accessible parking |
| llwybr hygyrch / accessible trails | llwybrau cerdded / walking trails |
| llwybr cyhoeddus / public footpath | llwybr marchogaeth / public bridleway |
| llwybrau beicio mynydd / mountain bike trails | marchogaeth / horse riding |
| lle picnic / picnic area | gwylio adar / bird watching |
| golygfan / viewpoint | rhaeadr / waterfall |
| Dŵr Cymru / Welsh Water | |

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government